OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 1793

## Rheoliadau Gweithredu'r Cwricwlwm Lleol (Cymru) 2013

**Cymhwyso deddfwriaeth sy'n ymwneud ag addysg i ddisgyblion a myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau astudio yn y cwricwlwm lleol**

**13.**—(1) Pan fo'r canlynol yn digwydd, sef—

(a) bod person wedi dewis dilyn cwrs astudio o dan adran 116D(1) o Ddeddf 2002 neu adran 33E(1) o Ddeddf 2000, a

(b) nad yw'r cwrs astudio hwnnw'n cael ei ddarparu yn yr ysgol lle y mae'r person yn ddisgybl cofrestredig neu yn y sefydliad lle y mae'r person wedi ymrestru fel myfyriwr llawnamser,

mae'r corff sy'n gyfrifol am yr ysgol neu'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs astudio i'w ystyried, mewn perthynas â'r person hwnnw, yn gorff sy'n gwneud trefniadau ar gyfer penderfynu pwy sy'n cael ei gynnig derbyniad, ac yn gorff sy'n cynnig derbyn neu sy'n peidio â derbyn at ddiben adrannau 85(1) a (4) a 91(1) a (6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**).

(2) Pan fo'r canlynol yn digwydd, sef—

(a) bod person wedi dewis dilyn cwrs astudio o dan adran 116D(1) o Ddeddf 2002 neu adran 33E(1) o Ddeddf 2000, a

(b) nad yw'r cwrs astudio hwnnw'n cael ei ddarparu yn yr ysgol lle y mae'r person yn ddisgybl cofrestredig neu'r sefydliad lle y mae'r person wedi ymrestru fel myfyriwr llawnamser,

mae'r person hwnnw i'w ystyried yn berson sydd wedi gwneud cais am gael ei dderbyn at ddiben adrannau 85(3)(b) a 91(5)(b) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

(**1**) 2010 p.15.